11 Tachwedd 2015

Prof. P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Ms L Fowlie, Mr A Jones, Dr L Jones, Mr W Jones, Mrs M Lake, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr M Stanley, Mr D Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

h) <u>Cofnod 469 Unrhyw fater arall:</u>
Cafwyd sicrwydd o ran diogelwch trydanol yng Ngholeg Bangor yn Tsiena.

gweithgareddau.

Fe wnaeth trafodaethau â Phrifysgol John Moores Lerpwl, sy'n gweithredu nifer o ddrôns, amlygu'r cymhlethdodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhain a gwahanol ddehongliadau sydd ar gael. O ganlyniad:

Mae pob Ysgol / Adran wedi cael cyfarwyddyd y gallant ddefnyddio UAV yn unig ar fusnes yn ymwneud â'r brifysgol os yw'r UAV:

- o Wedi ei gael drwy gyflenwr 3ydd parti cymwys sydd gyda chymwysterau priodol, yswiriannau a Thrwydded CAA ar gyfer Gwaith Awyr.
- o Y rhoddir gwybod am y 'comisiwn' i'r HSS a'i gymeradwyo ganddynt cyn i'r gwaith UAV ddechrau.

I gefnogi'r angen cynyddol i Golegau / Adrannau weithredu UAVs, bydd yr HSS yn:

ii. Datblygu Polisi a Llawlyfr Gweithredu cysylltiedig.

iii. Ceisio Trwydded CAA i ddefnyddio UAVs (ar ôl i hyfforddiant addas gael ei roi i Beilot UAV mewn Ysgol / Adran).

iv. Cymeradwyo i UAVs hedfan dros eiddo'r brifysgol gan 3ydd parti a holl gomisiynau 3ydd parti, nes bydd trefniadau amgen wedi eu llunio.

5RHGG \U KROO HLWHPDX Q \PZQHXG k U *UiS 7 cyfarfod.

i. Digwyddodd un digwyddiad mawr yn 2015 gydag aelod staff yn cael Encephalitis Japaneaidd pan oedd yn gweithio yn Tsiena. Nodwyd bod SEG ar hyn o bryd yn adolygu rhagofalon iechyd cyn mynd i deithio, gweithio ac astudio dramor, ac yn ystod y cyfnodau hynny.

I wella cipio data a nodi tueddiadau'n ymwneud â damweiniau / digwyddiadau, mae ymdrech sylweddol wedi cael ei gwneud i hybu rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau ar draws y brifysgol. Gellir gweld canlyniadau hyn yn y gymhariaeth ganlynol o ddata 2014 a 2015:

| | | |
|---|---|---|
| Ffurflenni adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau 1 Ion-11 Tach | 146 | 284 |
| Anafiadau | 68 | 61 |
| Tân | 1 | 0 |
| Cyflyrau Meddygol | 12 | 21 |
| Digwyddiadau Peryglus / Arfer Anniogel | 33 | 127 |
| Chwaraeon | 32 | 75 |

Rhoddwyd crynodeb o waith allweddol HSS. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

i. Mae adolygiad o drefniadau rheoli Colegau / Adrannau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safon Bolisi Diogelwch Gyrrwr a Cherbyd yn agosáu at ei orffen. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at ofynion llai beichus ar Golegau / Adrannau o ran awdurdodi gyrwyr a gwirio trwyddedau gyrru.